# Cwestiynau Cyffredin am gais cangen Llanrhaeadr

**C: Rwyf wedi derbyn llythyr yn rhoi gwybod i mi fod Practis Grŵp Llanfyllin wedi cyflwyno cais i gau eu cangen yn Llanrhaeadr. Pam rydw i wedi derbyn hyn?**

*A: Rydych wedi derbyn y llythyr gan eich bod chi, neu aelod o'ch cartref, wedi'ch nodi fel claf cofrestredig ym Mhractis Grŵp Llanfyllin. Mae'r un llythyr wedi'i anfon at bob cartref sydd â chleifion cofrestredig.*

**C: Mae fy mhartner/plant hefyd wedi'u cofrestru yn y practis; dydyn nhw ddim wedi derbyn llythyr. A ddylen nhw fod wedi derbyn un?**

*A: Na ddylen. Mae'r llythyr wedi'i anfon at gyfeiriadau'r aelwydydd. Os oes mwy nag un claf cofrestredig yn yr aelwyd, dylid dangos y llythyr i bawb.*

**C: Sawl claf sydd wedi cofrestru gyda Phractis Grŵp Llanfyllin?**

*A: Mae 11,500 o gleifion wedi cofrestru gyda'r practis.*

**C: Mae cais wedi'i gyflwyno i gau safle cangen Llanrhaeadr; beth sy'n digwydd nawr?**

*A: Bydd y Bwrdd Iechyd nawr yn ceisio casglu syniadau a barn cleifion ac unrhyw un arall a allai gael ei effeithio, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael i lywio'r penderfyniad terfynol. Gelwir hyn yn 'Gyfnod Ymgysylltu neu Ymgynghori'.*

**C: Mae cais wedi'i gyflwyno i gau safle cangen Llanrhaeadr; a yw hyn yn golygu y bydd yn cau? Ydy'r penderfyniad wedi'i wneud yn barod?**

*A: Nac ydy. Nid yw cyflwyno cais yn golygu y bydd y gangen yn cau yn awtomatig. Mae sawl cam wrth asesu'r cais, ac mae adborth gan gleifion yn gam hollbwysig i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhannu eich barn mewn ffordd ystyrlon drwy'r holiadur cleifion rydym wedi'i ddatblygu.*

**C: Sut gallaf sicrhau bod fy marn a'm syniadau yn cael eu clywed?**

*A: Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ymweld â'n gwefan neu ddefnyddio'r cod QR yma: https://biap.gig.cymru/llym Mae ein harolwg ar-lein yn gyflym ac yn syml i'w ddefnyddio; fodd bynnag, os na allwch gwblhau'r arolwg ar-lein, gallwch ofyn am gopi papur gan ein tîm Gofal Sylfaenol yn primarycaregeneral.powys@wales.nhs.uk neu drwy ffonio 01597 828805, a bydd copi yn cael ei anfon atoch.*

**C: A fydd sesiwn galw heibio y gallaf fynychu?**

*A: Bydd. Bydd cyfle i fynychu sesiwn galw heibio a sesiwn ar-lein. Bydd dyddiadau ac amseroedd yn cael eu rhannu'n fuan ar ein gwefan:* https://biap.gig.cymru/llym

**C: Sut bydd fy adborth yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol?**

*A: Bydd yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau terfynol. Mae'n bwysig eich bod yn rhannu eich barn drwy gwblhau'r arolwg cleifion.*

**C: Sut byddaf yn cael mynediad at wasanaethau os bydd y gangen yn cau?**

*A: Ar hyn o bryd, mae Practis Grŵp Llanfyllin yn gweithredu o dri safle. Pe bai cangen Llanrhaeadr yn cau, byddai gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu o Feddygfa Llanfyllin a Meddygfa Llandysilio.*

**C: Os bydd y safle yn Llanrhaeadr yn cau, a fyddwn i'n parhau i fod wedi cofrestru gyda Phractis Grŵp Llanfyllin?**

*A: Byddwch. Ni fydd eich cofrestriad yn newid.*

**C: Os bydd y safle yn Llanrhaeadr yn cau, a fyddaf yn dal i allu cael ymweliadau cartref pan fydd eu hangen arnaf?**

*A: Byddwch. Byddwch yn parhau i dderbyn ymweliadau cartref os yw'n briodol yn glinigol gwneud hynny.*

**C: Gallaf ddewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu arall?**

*A: Gallwch, ar yr amod bod eich cyfeiriad o fewn ardal practis meddyg teulu arall. Gallwch gysylltu â'r practis hwnnw'n uniongyrchol a gofyn am gofrestru gyda nhw.*

**C. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran Fferyllfa Llanfyllin?**

*Mae gwaith yn datblygu i sicrhau gwasanaeth fferyllfa gymunedol newydd yn Llanfyllin, ac mae argymhelliad wedi'i wneud gan ein Pwyllgor Ceisiadau Fferyllol.*

*Mae'n hanfodol ein bod yn dilyn y broses briodol yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a deddfwriaeth gysylltiedig. Oherwydd sensitifrwydd masnachol, nid ydym yn gallu rhannu manylion pellach ar hyn o bryd ond edrychwn ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi unwaith y bydd y broses gytundebol wedi dod i ben.*

*Yn y cyfamser, rydym yn ddiolchgar i Bractis Grŵp Llanfyllin sy'n parhau i gynnig gwasanaethau dosbarthu i'w holl gleifion nes bod y fferyllfa newydd wedi'i sefydlu.*

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Diweddariad gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar Wasanaethau Fferyllfa yn Llanfyllin - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**C: A yw fy Aelod o'r Senedd yn gwybod am hyn?**

*A: Rydym wedi cysylltu ag Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, Cynghorwyr Sir a Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am y cais.*

**C. Os gwneir penderfyniad i gau cangen Llanrhaeadr, pryd y byddai hyn yn digwydd?**

*A: Rydym yn disgwyl i benderfyniad gael ei wneud erbyn diwedd 2026. Os cymeradwyir y cau, bydd cyfnod rhybudd am o leiaf tri mis.*